

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a  
Chysylltiadau Rhyngwladol

---

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymfael)

Mawrth 2022



## 1. Cyflwyniad

1. Cyflwynwyd y **Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael)** ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Mehefin 2021 fel Bil Aelod Preifat a noddwyd gan Mel Stride AS. Ar 10 Rhagfyr 2021, gosododd Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** ("y Memorandwm") ar gyfer y Bil gerbron y Senedd.

2. Ar 14 Rhagfyr 2021, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol i'w ystyried. Gosododd y Pwyllgor Busnes **ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad**, ar 10 Mawrth 2022. Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfodydd ar 2 Chwefror a 2 Mawrth 2022.

3. Mae teitl hir y Bil yn nodi ei ddiben:

*"ymestyn gwarchodaeth rhag ymafael neu fforffedu ar gyfer gwrthrychau diwylliannol."*

## 2. Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

4. Mae paragraffau 3 i 7 o'r Memorandwm yn crynhoi'r Bil a'i amcanion polisi. Mae paragraffau 8 i 9 yn pennu'r darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer.

5. Mae paragraffau 13 a 14 o'r Memorandwm yn nodi'r rhesymau pam mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i'r Bil gynnwys darpariaeth ddatganoledig.

6. Mae paragraff 18 o'r Memorandwm yn nodi casgliadau Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell bod y Senedd yn cydsynio i'r cymalau a geir yn y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael), ac eithrio is-adran 4C(b) y mae'n ceisio cael ei diwygio.

## 3. Y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

7. Mae'r Memorandwm yn gofyn am gydsyniad y Senedd ar y darpariaethau canlynol.

## Cymal 1: Gwarchod gwrthrychau diwylliannol ar fenthyg

8. Mae cymal 1 yn mewnosod isadrannau newydd (4A) i (4D) yn adran 134 o Ddeddf 2007.
9. Mae is-adran newydd (4A) yn darparu bod gan yr awdurdod perthnasol y pŵer i ymestyn y cyfnod gwarchodaeth hwyaf presennol am gyfnod pellach o hyd at 3 mis.
10. Mae isadran newydd (4B) yn diffinio ystyr 'awdurdod perthnasol' ('relevant authority') at ddibenion isadran (4A).
11. Mae is-adran newydd (4C) yn egluro y gellir arfer y pŵer fwy nag unwaith mewn perthynas â'r un gwrthrych, a, phan fo'n arferadwy gan fwy nag un awdurdod perthnasol ar adeg benodol mewn perthynas â'r un gwrthrych, mae'n arferadwy ganddynt yn gydredol. Bydd hyn, ymhlith pethau eraill, yn sicrhau y gellir darparu cyfnod estynedig o warchodaeth ar gyfer gwrthrych sydd yn y DU at ddibenion mwy nag un arddangosfa mewn mwy nag un wlad yn y DU.
12. Mae isadran newydd (4D) yn egluro bod unrhyw estyniad a roddir o dan isadran (4A) yn ychwanegol at y 'cyfnod gwarchodaeth hwyaf' ('maximum protection period'), sy'n cynnwys y cyfnod cychwynnol o 12 mis o dan isadran (4)(b) ynghyd ag unrhyw gyfnod ychwanegol o warchodaeth sy'n codi o dan isadran (5) pan fo'r gwrthrych wedi dioddef difrod, ac unrhyw gyfnod o estyniad a roddwyd eisoes o dan isadran (4A).

## Cymal 2: Rhychwant, cychwyn a theitl byr

13. Mae cymal 2 yn nodi rhychwant tiriogaethol, cychwyn a theitl byr y Bil.

## 4. Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn

14. Mae paragraffau 13 a 14 o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn nodi'r rhesymau pam mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i'r Bil gynnwys darpariaeth ddatganoledig:

*"Bydd sicrhau bod y darpariaethau yn y Bil yn gymwys i Gymru yn diogelu mynediad diwylliannol cydradd i fenthyciadau rhyngwladol i'r cyhoedd ar draws pedair gwlad y DU. Heb y darpariaethau hyn, mae'n debygol y bydd amgueddfeydd ac orielau Cymru yn cael eu rhoi o dan anfantais o ran atal benthycwyr rhyngwladol rhag benthyca gwrthrychau i'w harddangos mewn arddangosfeydd teithiol/dros dro yng Nghymru.*

*Mae'n rhesymol defnyddio'r Bil hwn ar gyfer y DU i wneud y darpariaethau hyn i sicrhau cysondeb ledled y DU mewn perthynas â gwarchodaeth a roddir i wrthrych, a sicrhau hefyd y gellir rhoi gwarchodaeth i'r gwrthrych ym mhob gwlad yn y DU."*

## 5. Rhesymau dros beidio â rhoi cydsyniad

**15.** Mae'r is-adran newydd (4C)(b) a fewnosodir yn Neddf 2007 gan gymal 2 o'r Bil yn cynnwys pŵer cydredol sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol. Pan fo gwrthrych penodol wedi'i gysylltu â mwy nag un diriogaeth, mae is-adran (4C)(b) yn darparu y gellid arfer y pŵer i ymestyn gwarchodaeth yn gydredol er mwyn sicrhau bod y gwrthrych yn cael ei warchod ledled y DU.

**16.** Mae Paragraff 11 o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn darparu:

*"Fel y'i drafftwyd, mae'r pŵer cydredol yn effeithio ar bwerau'r Senedd i wneud deddfwriaeth yn y maes hwn yn y dyfodol oherwydd y ffaith y bydd yn ofynnol i gael cydsyniad Gweinidog y Goron i ddileu swyddogaeth gydredol yr Ysgrifennydd Gwladol. Byddai'n gweithredu'r cyfyngiad ym mharagraff 11(1)(a) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd gael cydsyniad Gweinidog y Goron i ddeddfu, i ddileu neu addasu, mewn Deddf Senedd swyddogaeth Gweinidog y Goron sy'n ymwneud â swyddogaeth ddatganoledig gymwysedig."*

**17.** Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am ddiwygiad i'r Bil a fyddai'n galluogi eithriad ar gyfer y cyfyngiadau ym mharagraff 11(1)(a) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**18.** Mae paragraff 19 o'r Memorandwm yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn cadw'r penderfyniad yn ôl o ran argymell cydsyniad i'r ddarpariaeth tan ganlyniad y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU.

## 6. Trafodaeth a chasgliad y Pwyllgor

**19.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno ag argymhelliad Llywodraeth Cymru ei bod yn briodol i'r Senedd roi cydsyniad i Lywodraeth y DU ddeddfu ar y materion datganoledig a gynhwysir yn y

Bil, ar wahân i isadran (4C)(b). Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid gohirio penderfyniad ar isadran (4C)(b) hyd nes y ceir gwybod canlyniad y trafodaethau â Llywodraeth y DU.